| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **28 Chwefror, 2013** |
| **Teitl** | **Ffordd Gwynedd** |
| **Pwrpas** | **Cyflwyno dogfen strategol gychwynnol sy'n mynd i'r afael â chynaladwyedd canlyniadau gwasanaethau i'r dyfodol.** |
| **Awdur** | **Prif Weithredwr – Harry Thomas** |
| **Arweinydd Portffolio** | **Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **Argymhellion** | **Mabwysiadu'r ddogfen strategol gychwynnol fel sail i waith pellach** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Bydd aelodau'n cofio'r cyflwyniad i'r Cyngor fis Rhagfyr diwethaf a oedd yn:-

- Amlygu'r rhagolwg y byddai'r her gyllidol sy'n wynebu'r Cyngor yn dwysau ac yn para'n hirach na'r disgwyl ar y cychwyn.
- Dangos y byddai canolbwyntio ar fesurau effeithlonrwydd yn unig yn annigonol i gau'r bwlch cyllidol a bod angen gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau.
- Awgrymu bod angen dull amgen i leihau ac oedi gwneud toriadau yn y gwasanaethau, sef rheoli'r galw.
- Tystiolaethu lefel uchel y gall hyn fod yn opsiwn posibl i'r dyfodol.
- Rhestru rhai o'r pethau y byddai'n rhaid eu newid er mwyn cynyddu'r tebygrwydd i'r strategaeth fod yn llwyddiannus.

1.2 Yn y drafodaeth a ddilynwyd, daeth yn amlwg, er bod gan rai aelodau amheuon, bod 80% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf (fel rhan o bleidlais anffurfiol) y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r dull strategol yma.

1.3 Felly, mae dogfen strategol gychwynnol wedi'i pharatoi (sydd ar wahân i raglen y Cyngor) er ystyriaeth ffurfiol gan y Cyngor. Yn y cam hwn, mae'n strategaeth ar lefel uchel iawn sy'n crynhoi'r cysyniad a'r egwyddorion o reoli'r galw ac yn amlygu'r meysydd sydd angen gwaith ychwanegol, manylach.

1.4 Gofynnwyd felly i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen fel sail i :-

- Gynnal trafodaethau ffurfiol gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- Paratoi adnoddau cyllidol yn fewnol ac yn allanol i gefnogi’r cam o gynllunio a gweithredu’r strategaeth.

- Ennill y sgiliau a’r gallu angenrheidiol i fod yn llwyddiannus.

- Gwerthuso’r hyn sy’n gweithio’n dda ar hyn o bryd ac adnabod bylchau yn y ddarpariaeth.

- Cysylltu gyda’r cyhoedd er mwyn sefydlu dealltwriaeth well o sut all dinasyddion a gwasanaethau cyhoeddus weithio’n well gyda’i gilydd er mwyn ymdopi â’r her gyllidol.

- Sefydlu trefniadau llywodraethu priodol, sy’n adeiladu ar strwythurau presennol (lle’n bosib) er mwyn sicrhau cynnydd llwyddiannus.

Bydd Arweinydd y Cyngor yn adrodd yn ôl yn achlysurol ar ddatblygiad a chynnydd y strategaeth ac yn argymell unrhyw newidiadau i gyfeiriad cyffredinol y strategaeth.

## 2.0 <u>ARGYMHELLIAD</u>

2.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadu’r strategaeth gychwynnol fel sail i’r amcan a amlinellir yn 1.4